CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
CYFARFOD 7.30 p.m. 19 Mis Mehefin 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd Elsbeth Page (Cadeirydd), Cyng. Delme Phillips, Cyng.Elfed Davies, Cyng. Robin Bowen, Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Cai Phillips ar y ffôn.
Cynghorydd Sir: Bryan Davies
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Hefin Jones
Ymddiheuriadau: Cyng.Julian Evans a'r Cyng. Wyn Evans

Materion Personol / Cyhoeddiadau :

20	**Datgelu Buddianau Personol** - Dim
21	**Cadarnhau'r Cofnodion - 15.05.2023** Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15.05.2023 yn gofnod cywir - cynigiwyd gan y Cyng.Robin Bowen ac eiliwyd gan y Cyng. Delme Phillips.

22	**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
a.	Gwasanaeth Bws 460- Mae gwasanaeth Bwcabus ar gael i drigolion Hermon. Clerc i ddorsbathu manylion cyswllt Bwcabus.
b.	.Cyfleusterau Cyhoeddus -Ynni EDF - Nid yw Chris Evans wedi cysylltu â'r Clerc fel y trefnwyd yn dilyn y cyfarfod safle ar 16.3.23 Mae Bryan Davies, Cyng. Sir, wedi uwchgyfeirio'r mater gydag Uwch Swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r synwydryddion PIR wedi'u gosod. Mae'r cyfleusterau ar agor nawr am 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Diolchodd y Cyngor i'r Cyng. Robin am ofalu am y cyfleusterau yn ystod y dyddiau pan nad yw'r gofalwr ar gael. Clerc i gael set sbâr o allweddi.
c.	Traffig drwy Cynwyl Elfed - Ymhellach i'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 31 Mai 2022- Mae mannau wedi eu mesur er mwyn adnabod lle gellir gosod y llinellau melyn dwbl o amgylch y ddau dro dall yn y pentref. Clerc wedi ysgrifennu at Mike Jacob gyda'r bwriad o drefnu Cyfarfod Safle rhwng Mike Jacob, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cynghorwyr ynghyd â Bryan Davies, Cynghorydd Sir, er mwyn symud materion ymlaen.Bryan Davies Cyng. Sir i ddilyn lan.
d.	Cyffordd Penrhiwcrynfryn a Chyffordd Esgair - Mae'r Clerc wedi gofyn am ymweliad safle gyda'r Rheolwr Diogelwch Ffyrdd, Mike Jacob a Pheiriannydd Diogelwch Ffyrdd - dim ymateb eto.
e.	Hysbysfwrdd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed - digwyl iddo gyrraedd.
f.	Diffibriliwr Cyhoeddus - Garej Derwydd - Diffibriliwr yn ei le ac mae'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diffibrilwyr cyntaf wedi'i gynnal. Awgrymodd yr hyfforddwr y dylid cadw pecyn paratoi AED gyda'r AED ac mae hwn wedi'i archebu.
g.	Ger y Duad - Absenoldeb goleuadau stryd ar hyd yr A484 ger SA33 6TQ. Arwel Price (Peiriannydd Goleuadau) wedi ymweld a'r safle ar 26/7/22. Clerc yn aros am diweddariad oddi wrth Arwel Price ynglŷn â datblygiadau. Bydd Bryan Davies (Cyng.Sir) yn dilyn y mater hwn i fyny.

23	**<u>Gohebiaeth.</u>** Mae copïau o'r e-byst perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr - nodwyd.
a.	<u>Sesiynau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth defnyddio Diffibrilwr</u>-Penderfynodd y Cyngor fod y Clerc i ysgrifennu i ofyn am ddyddiad sydd ar gael ar gyfer sesiwn hyfforddi i'w gynnal ar ôl 5 o'r gloch yn ystod yr wythnos yn dechrau 10fed Gorffennaf.
b.	<u>Robin Bowen : Cyfleusterau Cyhoeddus</u>-cynnig i un wal allanol gael ei phaentio gyda murlun yn darlunio nodweddion lleol. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin yw adeiladwaith yr adeilad. Mae gwaith i'w wneud ar yr adeilad.Penderfynodd y Cyngor fod y Clerc i ysgrifennu yn gofyn am ganiatâd i drefnu hyn unwaith bydd y gwaith a drefnwyd eisioes wedi'i gwblhau.
c.	<u>Hyfforddiant Côd Ymddygiad -</u>Cymerwyd enwau a'r Clerc i hysbysu KJ Davies.
d.	<u>Gwahoddiad: Cefin Campbell AS</u> - Digwyddiad - Loteri Genedlaethol -cyngor i Grwpiau Cymunedol. Mae'r Cynghorwyr Amy Evans, Robin Bowen, Elsbeth Page a Bryan Davies yn dymuno mynychu a bydd y clerc yn anfon eu henwau ymlaen at y trefnydd.
e.	<u>Cenhadledd Un Llais Cymru 5.7.23 -</u> cost £60 y cynrychiolydd. Penderfynwyd bod y Cynghorydd Sir: Bryan Davies a'r Cyng. Cai Phillips i gynrychioli Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed yn y cyfarfod.
f.	<u>Aelodaeth y Fforwm Derbyn</u> - ymateb erbyn 30.6.23 os oes diddordeb-Nodwyd.
g.	<u>Bil Seilwaith (Cymru) 2023</u> - diweddariad er gwybodaeth.Nodwyd.
24	**<u>Cynllunio</u>** **PL/05878 -** Estyn preswyl ochr a chefn arfaethedig - Ti'r i'r De o Awenydd, Blaenycoed SA33 6ET. Derbyniwyd y llythyr Ymgynghori gan y Clerc ar 23/5/23 ac fe'i dosabarthwyd i'r Cynghorwyr ar 25/5/23, dyddiad cau'r Ymgynghoriad oedd 13/6/23. Nid oedd y cais hwn wedi'i roi ar yr Agenda gan y Clerc mewn camgymeriad, ond anfonwyd o'r Llythyr Ymgynghori at y Cynghorwyr yn ystod y Cyfnod Ymgynghori ac ni dderbyniwyd ymateb gan y Clerc i'r cais hwn felly ni chymerwyd unrhyw gamau.

25	**<u>Taliadau a Chyllid -</u>** **<u>Archwilio Cymru</u>** <u>Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru</u> Barn yr Archiliad - Cymwys. Pwyntiau sydd angen sylw: **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ● Lwfans Blynyddol - Rhaid gwneud taliadau i aelodau drwy'r gyflogres p'un a yw aelod yn hunangyflogedig ai peidio. Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu T.W.E. ar gyfer taliadau a wneir i aelodau o dan Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003. **Trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithionrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o arian** ● Mae'r Archwilydd yn argymell bod y Cyngor yn asesu'r ddau gontract hanesyddol, y naill mewn perthynas â'r Gyflogres a'r llall mewn perthynas â Gwasanaethau Cyfieithu i benderfynu a ydynt yn darparu gwerth am arian ac yna ffufioli a chytunwyd arno gan y Cyngor. Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol dderbyn casgliad Adroddiad Archwilio Archwilydd Cyffredinol cymru a phenderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a wnaed. Nododd y Cyngor fod adroddiad yr Archwiliwr am y flwyddyn yn diweddu 31.3.22 wedi ei dderbyn ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 31.03.23 a bod y taliadau a wnaed mewn perthynas â lwfans aelodau am y flwyddyn honno wedi eu gwneud yn yr un modd ag yn y blynyddoedd blaenorol. Penderfynodd y Cyngor y bydd yr holl daliadau lwfans aelodau yn y dyfodol yn cael eu gwneud drwy'r Gwasanaethau Cyflogres. ●<u>Contract 1. Gwasanaethau Cyflogres:</u> Ar hyn o bryd Clay Shaw butler sy'n cyflawni'r gyflogres mewn perthynas â chostau Staff. Trafododd y Cyngor y ffioedd presennol a phenderfynwyd bod eu ffioedd am y deuddeg mis diwethaf yn rhesymol iawn ar gyfer gwasanaeth proffesiynol. Penderfynodd y Cyngor i barhau gyda'r trefniant hwn. Clerc i ofyn am gost ychwanegu lwfans aelodau i'r system ac i ofyn am Llythyr Ymrwymiad gael ei baratoi er mwyn ei gwblhau yng Nghyfarfod nesaf y Cyngor. ●<u>Contract 2. Gwasanaethau Cyfieithu</u> Penderfynwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 21 Rhagfyr 2016 y byddai'r Cyngor yn darparu cyfieithu ar y pryd yng Nghyfarfodydd y Cyngor. Penderfynwyd ar 16 Ionawr 2017 i benodi Gwasanaeth Cyfieithu Hefin Jones i ddarparu gwasanaeth cyfieithu yng Nghyfarfodydd y Cyngor - cytunwyd ar y ffi o £85 y cyfarfod bryd hynny. Yn dilyn yr Adroddiad Archwilio trafodwyd y mater a phenderfynodd y Cyngor barhau gyda gwasanaeth cyfieithu gan Hefin Jones. Mae mwyafrif aelodau'r Cyngor yn Gymry iaith gyntaf, ac fel y cydnabyddir yn neddfwriaeth Mesur y Gymraeg (2011) mae gan bobl yr hawl i fynegi eu hunain yn Gymraeg pan mai dyma'r iaith y maent yn fwy cyfforddus â hi. Bydd llythyr ymrwymiad ffurfiol yn cael ei lunio. ● Mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod yr Archwilydd Mewnol yn llofnodi'r Ffurflen Flynyddol cyn i'r Cadeirydd ei harwyddo. <u>Penodi Archwilydd Mewnol</u> - Nid yw Lyn Evans bellach yn gallu cynnal yr Archwiliad Mewnol a phenderfynodd y Cyngor benodi ei olynydd Meurig Jones. Clerc wedi rhoi gwybod i Archwilio Cymru. Mae'r Cyngor wedi cael mis ychwanegol i gyflwyno'r Ffurflen Flynyddol. **Taliadau** a. M.E. Davies Cyflog 05/23 - £214.15 b. Noticeboards Online - £492.02 (gan gynnwys T.A.W.) Hysbysfwrdd Cynwyl Elfed c. Un Llais Cymru Cenhadledd 5/7/23 - £120.00 (2@£60) Penderfynodd y Cyngor wneud y taliadau uchod.

26	**<u>Materion Priffyrdd</u>** *Clerc wedi gofyn i'r aelodau nodi union leoliad y broblem (megis Cyfeirnod Grid/Côd Post / tirnod adnabyddadwy megis eiddo / Rhif adnabod ffyrdd) wrth adrodd er mwyn helpu'r clerc i drosglwyddo'r wybodaeth gywir pan cysylltu â'r Adran Briffyrdd.* **a.** <u>O flaen Crynfryn</u> - Twll yn y ffordd. **b.** <u>Rhiw Llethr Moel -</u> Tarddiant yn y ffordd - mae angen cyfeirio'r dŵr sy'n rhedeg yn barhaus ar wyneb y ffordd i gwter/ffos. **c.** <u>B4333 - rhwng Pantypedyll a Mwdlan (Tro Gwastod/Tro Heather View)</u> Mae angen marcio'r ffordd yn glir ac arwyddion rhybudd clir o droadau ger y safle hwn lle mae llawer o ddamweiniau wedi digwydd. **d.** <u>B4333 rhwng Black Lion a chyffordd y B4299 yn Maudland -</u> mae angen llygaid cathod. **e.** <u>C1316 Panau - Beili - Penfoel - Waun Lwyd</u> - coed wedi disgyn ac yn pwyso ar ei gilydd dros y ffordd a hefyd yn effeithio ar y llinell ffôn. **f.** <u>C1316 -</u> Mae'r ffordd mewn cyflwr difrifol o wael ac yn torri i fyny mewn mannau. **g.** <u>B4333 - SA33 6SP -</u> Tro wrth dod i mewn i Gynwyl Elfed o gyfeiriad Hermon ger y Cae Sioe - mae llinell wen yn parhau i'w gweld yng nghanol y ffordd mewn man lle mae'r ffordd yn rhy gul. Mae hyn yn rhoi'r argraff anghywir i rai gyrwyr o led y ffordd. **h.** <u>B4333 - SA33 6SP -</u> mae'r arwydd 30 m.y.a. ar goll ar un ochr o'r ffordd. **i.** <u>A484</u> - rhai gyrwyr yn defnyddio cyflymder gormodol ar y ffordd heibio i garej Derwydd - Penderfynodd y Cyngor ofyn am bresenoldeb rheolaidd gan weithredwyr Gan Bwyll yn yr ardal. **j.** <u>A484 -</u> Mae angen arwydd Camerâu Cyflymder ar waith wrth ddod i mewn i Cynwyl Elfed o gyfeiriad Caerfyrddin. **k.** <u>Cais i Dafydd Llywelyn fynychu cyfarfod</u> Mae goryrru a diffyg presenoldeb heddlu yn yr ardal yn ddau fater y mae aelodau'r Cyngor yn aml yn cael eu holi yn eu cylch. Cynigiodd y Cyng Elfed Davies bod y Cyngor yn gofyn i Dafydd Llywely, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gael ei wahodd i drafod materion gyda'r Cyngor, yn y cyfarfod nesaf os yn bosibl.
27	**<u>Unrhyw Mater Arall</u>** <u>Polisi Hyfforddiant a Chynllun Hyfforddi Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed ar gyfer 2023-2024.</u> Derbyniodd y Cyngor y cynllun hyfforddi a gellir ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. <u>Ysgol Nantcwmrhys</u> - Mewn ateb i gwestiynau gan gynghorwyr dywedodd Bryan Davies Cyng. Sir wrth y cyfarfod ei fod yn edrych mewn i weld pwy sy'n berchen y tir yr adeiladwyd yr ysgol arno.
28	**<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>** ***Nos Lun 17.07.23*** 19:30 o'r gloch. Daeth y cyfarfod i ben am 21:45 awr

Arwyddwyd……..

Dyddiad……